## **Panel Adolygu Arbenigol:** Cylch Gorchwyl ac aelodaeth

### 1) Cefndir

Mae Rhaglen Cymru ar gyfer Llywodraeth 2021-26 a ddiweddarwyd yn addo "Diwygio cyfraith tai a gweithredu argymhelliad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd er mwyn diwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol i ganolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym." [1] Mae hyn yn adeiladu ar Gynllun Gweithredu Digartrefedd Llywodraeth Cymru, a ddywedodd y gall Cymru ddod â digartrefedd i ben trwy ei wneud yn fwy anghyffredin trwy fesurau atal cyffredinol, wedi'u targedu ac atal argyfwng. Mae cynllun Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi sut y gall unrhyw brofiad o ddigartrefedd fod yn fyr, a heb ddigwydd eto, trwy ddulliau ailgartrefu cyflym a thrwy fuddsoddi mewn mesurau cyffredinol fel cyflenwad tai cymdeithasol newydd.[2]

Mae angen diwygiadau i'r gyfraith ac ymarfer er mwyn cynyddu atal ac ailgartrefu cyflym. Argymhellodd y Grŵp Gweithredu ddileu rhwystrau a mynd i'r afael â chanfyddiadau mewn perthynas â digartrefedd, ac yn benodol newidiadau i'r gyfraith ac ymarfer i gael gwared ar yr angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a phrofion cysylltiad lleol.[3] Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd "camau breision ymlaen"[4] o ran atal a lliniaru ledled Cymru oherwydd Deddf Tai (Cymru) 2014 arloesol. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd yma, nid yw pawb yn elwa o'r system bresennol.

Yn fwy diweddar mae'r ymateb i'r pandemig wedi dangos y gall newidiadau dros dro i'r system, gan gynnwys llacio rhai o'r cyfyngiadau ar gael mynediad at gymorth, sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cymorth digartrefedd hanfodol sydd ei angen arnynt. Dywedodd y Gweinidog, Julie James AS, ei bod yn "benderfynol na fydd unrhyw fynd yn ôl" o ran y cynnydd a wnaed yn ystod y pandemig.[5] Bellach mae hyn yn codi cwestiynau am y fframwaith cyfreithiol presennol, a gafodd ei ddiweddariad mawr diwethaf yn 2014-15 yng Nghymru, ond mae'n dal i fod yn seiliedig ar y fframwaith a osodwyd ar ddiwedd y 1970au.

Mae *Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd i Ddigartrefedd* Llywodraeth Cymru yn cynnig datblygu a chyhoeddi Papur Gwyrdd sy'n "archwilio'r diwygio deddfwriaethol gofynnol" i gynnal y dull o weithredu 'gadael neb ar ôl' a ddilynwyd yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys:

- Y profion sydd ar waith i gael mynediad at gymorth ailgartrefu awdurdodau lleol (Angen Blaenoriaethol, Bwriadoldeb a Chysylltiad Lleol)
- Mynediad at dai, gan gynnwys dyraniadau a rhoi diwedd ar droi allan i ddigartrefedd
- Dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus
- Addasrwydd
- Dull o weithredu sy'n seiliedig ar hawliau (er bod y Rhaglen Lywodraethu'n nodi addewid ar wahân ar gyfer Papur Gwyn ar gynigion ar gyfer hawl i dai digonol, gan gynnwys rhenti teg a mesurau fforddiadwyedd, ac mae'r agenda hwn y tu hwnt i gwmpas y Panel Adolygu Arbenigol).

---

[1] Llywodraeth Cymru (2021a) Y *Rhaglen Lywodraethu* (wedi'i ddiweddaru), t.7
[2] Llywodraeth Cymru (2021b) *Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd 2021-2026*
[3] Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *What ending homelessness in Wales looks like,* t.40
[4] Fitzpatrick, S., Mackie, P., a Wood, J. (2019) *Homelessness Prevention in the UK – Policy Briefing*, t.4
[5] Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad Ysgrifenedig: Homelessness Prevention Update*, 23 Tachwedd 2020

### 2) Panel Adolygu Arbenigol

Er mwyn helpu i gyflawni'r ymrwymiadau lefel uchel y cynllun gweithredu i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 30 Mawrth 2022 y byddai Panel Adolygu Arbenigol, wedi'i ymgynnull gan Crisis a than gadeiryddiaeth yr Athro Suzanne Fitzpatrick, i edrych ar faterion deddfwriaethol ac argymell datrysiadau manwl i ddiwygio'r gyfraith. Mae gan Crisis brofiad o ymgynnull panel i Lywodraeth Yr Alban ar ddeddfwriaeth atal digartrefedd,[6] a'r panel arbenigol yn San Steffan i ddatblygu'r Ddeddf Lleihau Digartrefedd.[7] Mae'r elusen hefyd wedi datblygu fframwaith cyfreithiol delfrydol ar gyfer dod â digartrefedd i ben.[8]

Bydd y panel yn adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru ac yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio, gan ystyried y dystiolaeth orau sydd ar gael gan wasanaethau, pobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd ac arbenigedd arall o ran ymarfer, polisi, ymchwil a deddfwriaeth ddigartrefedd.

Bydd y panel yn adeiladu ar gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru i:[9]

- Annog ymyriadau cynharach i atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd.
- Delio â digartrefedd fel mater o fewn gwasanaethau cyhoeddus a dilyn dull o weithredu 'dim drws anghywir' o ran cymorth.
- Gwneud yn siŵr bod systemau digartrefedd yn rhoi angen sylfaenol yr unigolyn am dai a chefnogaeth yn y canol ac yn gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma.
- Dilyn dull cydgynhyrchiol o weithredu a darparu gwybodaeth ar gyfer polisi, darparu gwasanaethau ac ymarfer â'r dystiolaeth orau ar yr hyn sy'n gweithio, gan gynnwys oddi wrth bobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd.
- Hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol a mynd ati i fod yn wrthwahaniaethol.

### 3) Tasg y panel

Bydd y panel yn datblygu argymhellion i Weinidogion Cymru dros ddiwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 a'r holl feysydd cyfreithiol perthnasol lle mae gan Lywodraeth Cymru bwerau datganoledig. Er mwyn paratoi'n llawn ac egluro cynigion ar gyfer diwygio cyfreithiol, bydd y panel yn darparu adroddiad sy'n manylu ar y diwygiadau a argymhellir. Bydd y rhain yn archwiliad llawn o ddiwygiad posibl yn hytrach na chynrychioli unrhyw fath o bolisi Llywodraeth Cymru, a bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol ynghyd â chanlyniadau proses y Papur Gwyrdd. Bydd y panel yn rhoi cyd-destun manwl y tu ôl i unrhyw argymhellion, gan gynnwys bwriad polisi a rhesymu clir dros y newidiadau arfaethedig mewn deddfwriaeth. Bydd y panel hefyd yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar sut i sicrhau bod modd rhoi'r argymhellion ar waith yn llwyddiannus.

Bydd y panel yn ateb y cwestiynau hyn:

- Pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r gyfraith er mwyn atal digartrefedd i'r graddau mwyaf posibl?

---

[6] Prevention Review Group (2021) *Preventing Homelessness in Scotland.* https://www.crisis.org.uk/media/244558/preventing-homelessness-in-scotland.pdf

[7] *The homelessness legislation: an independent review of the legal duties owed to homeless people* (2015) https://www.crisis.org.uk/media/20606/crisis_the_homelessness_legislation_2015.pdf

[8] Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain. Crisis, t. 373

[9] Llywodraeth Cymru (2021b) Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd 2021-2026, t.5

- Pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r gyfraith er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt yn gyflym i ddatrys eu digartrefedd?

Lle mae'r panel yn teimlo nad diwygio deddfwriaethol yw'r cam mwyaf priodol i ddatrys mater cyfredol, ond â'r farn ei fod yn faes y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef, er mwyn cyflawni'r bwriad llawn o ddiwygio deddfwriaethol, bydd hyn hefyd yn cael ei fynegi'n glir yn yr adroddiad terfynol.

**4) Aelodaeth**

**Cadeirydd ac aelodaeth panel craidd a gadarnhawyd**

- Yr Athro Suzanne Fitzpatrick, Prifysgol Heriot-Watt (Cadeirydd)
- Matt Downie, Crisis
- Liz Davies KC, Siambrau Garden Court
- Dr Pete Mackie, Prifysgol Caerdydd
- Jennie Bibbings, Shelter Cymru
- Katie Dalton, Cymorth
- Jim McKirdle, CLlLC
- Angela Bowen, Cyngor Sir Gâr
- Sam Parry, Cyngor Conwy
- Clarissa Corbisiero, Cartrefi Cymunedol Cymru
- Nazia Azad-Warren, Tai Pawb

**Cefnogaeth a chyngor i'r panel craidd**

- Swyddogion Llywodraeth Cymru
- Jordan Brewer, Crisis
- Abi Renshaw, Crisis
- Lle mae consensws gan y panel, gellir gwahodd unigolion ag arbenigedd technegol penodol i gyfarfodydd unigol

**5) Dull o weithio**

**Ffyrdd o weithio**

- Bydd Crisis yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth i'r grŵp â pheth cefnogaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru i reoli logisteg cyfarfodydd.
- Bydd y panel craidd yn cyfarfod o leiaf 8 gwaith o Awst 2022, ac yn adrodd ar ôl 12 mis. Cyn cyfarfodydd bydd Crisis yn cyhoeddi papurau i'w hystyried ac, os yw'n berthnasol, yn drafftio cynigion diwygio i'w trafod. Bydd cyfarfodydd ar-lein yn bennaf ond bydd y panel yn cyfarfod wyneb-yn-wyneb yn achlysurol pan fo angen ac os bydd gofynion Covid-19 a chanllawiau'r llywodraeth yn caniatáu hynny.
- Bydd aelodau'r panel yn cyfrannu at waith parhaus rhwng cyfarfod ac ymgysylltu â phapurau, er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd craidd yn meddu ar ffocws ac yn gynhyrchiol.
- Aelodau'r panel i ddod yn 'arweinwyr thematig' yn eu meysydd arbenigedd.

- Bydd Crisis hefyd yn cynnull cyfarfodydd ymgynghori cyn cyfarfodydd panel craidd, i archwilio themâu yn fanylach a chyfrannu at drafodaethau panel craidd. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cymryd safbwyntiau gan grŵp ehangach o randdeiliaid y tu hwnt i aelodaeth y panel craidd, a bydd cynllun cyffredinol ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu yn darparu gwybodaeth iddynt.
- Bydd y panel yn ystyried ac yn ymgorffori canlyniadau gwaith ymgynghori â phobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd a phobl sy'n gweithio'n broffesiynol i ddod â digartrefedd i ben. Bydd Cymorth Cymru yn arwain y gwaith hwn ar ran y panel.
- Bydd y panel craidd yn darparu mewnbwn i'r agenda cyn pob cyfarfod ymgynghori a bydd yn derbyn adroddiad gan Crisis yn dilyn pob cyfarfod ymgynghori a phapurau polisi ymlaen llaw a dogfennau briffio cyn pob cyfarfod panel craidd.
- Bydd ymgysylltu yn bellgyrhaeddol, yn hyblyg ac yn barhaus drwy gydol y broses.
- Bydd profiadau pobl sydd angen cymorth arbenigol, grwpiau ar y cyrion, a phobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried ym mhob rhan o waith y Panel Adolygu Arbenigol.
- Bydd pob maes thematig yn cael ei ystyried fel rhan o lens effaith cydraddoldeb cyffredinol, a bydd pob argymhelliad mae'r grŵp yn ei wneud yn cael eu hasesu ar gyfer yr effaith cydraddoldeb a chynaliadwyedd (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- Bydd Crisis yn llunio adroddiad sy'n adlewyrchu casgliadau'r adolygiad.
- Caiff cofnodion eu rhannu'n gyhoeddus ar wefan Crisis ond byddant yn cael eu gwneud yn ddienw, â phwyntiau allweddol yn unig yn cael eu nodi ac nid pa unigolyn ddywedodd beth.
- Bydd cofnodion o'r grŵp craidd a phapurau perthnasol yn cael eu cyhoeddi ar dudalen we y mae Crisis yn ei chynnal yn dilyn pob cyfarfod. Bydd y panel yn darparu diweddariadau cyfnodol ar y cynnydd i randdeiliaid.

**6) Amserlen cyfarfod**

Dros dro, yn ddibynnol ar adolygiad cyfnodol, bydd cyfarfodydd y panel yn canolbwyntio ar:

1. Trosolwg o'r panel a'i bwrpas
2. Dyletswyddau atal a lleddfu ar gyfer awdurdodau lleol
3. Angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol, troi allan yn arwain at ddigartrefedd
4. Mynediad at dai, (gan gynnwys: cymhwysedd, dyraniadau, llety dros dro, addasrwydd)
5. Cyfarfod adolygu
6. Plant a theuluoedd (gan gynnwys y rheini sy'n gadael gofal, digartrefedd ymysg pobl ifanc, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)
7. Rôl iechyd a gofal cymdeithasol wrth atal digartrefedd a rhoi diwedd arno
8. Systemau cyfiawnder troseddol ac atal
9. Gwiriad cyd-destunol ac adolygu cynigion

**7) Egwyddorion**

- Dylai cynigion integreiddio'n effeithiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol â newidiadau eraill i'r fframwaith digartrefedd fel rhan o gynllun gweithredu rhoi diwedd ar ddigartrefedd Llywodraeth Cymru.
- Bydd y panel yn cyfuno safbwyntiau gwahanol â thystiolaeth a mewnbwn rhanddeiliaid ac arbenigwyr, gan gynnwys pobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd, i ffurfio argymhellion wedi'u cyd-gynhyrchu. Bydd y panel yn gweithredu trwy gonsensws ar y cyd pan fo hynny'n

bosibl, ond lle mae gwahaniaethau barn sylweddol bydd y rhain yn cael eu nodi yn yr adroddiad terfynol.

- Bydd profiadau pobl sydd angen cymorth arbenigol, grwpiau ar y cyrion, a phobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried ym mhob rhan o waith y Panel Adolygu Arbenigol.
- Bydd disgwyl i aelodau'r panel craidd gyfrannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth bersonol at y panel ac ymgysylltu â'u rhwydweithiau y tu allan i'r panel, ac os ydynt yn gysylltiedig â sefydliad, neu'n cael eu cyflogi ganddo, yna ni fydd eu sefydliad yn cael ei ddal i gasgliadau'r adolygiad.
- Bydd y data a'r dystiolaeth ddiweddaraf a chadarn sydd ar gael yn darparu gwybodaeth ar gyfer cynigion.
- Bydd y panel craidd yn gweithio mewn ffordd dryloyw ac yn darparu'r newyddion diweddaraf yn gyfnodol i randdeiliaid a chyfleoedd ymgysylltu ar gyfer rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn gwella'r fframwaith cyfreithiol.